


Lled-gododd amryw ohonom mewn dychryn o ymylon ein seddau i rwystro'r storiwr rhag yngan gair arall. Credem yr eiliad honno y byddai yn angheuol iddo! Yr unigryw Ddr. D. Tecwyn Lloyd oedd wrthi ar ôl swper un noson yn arddangos crefft fwy awdur ac adroddwr stori ysbryd, sef y ddawn i beri i'r sgeptig daflu golwg ofnus dros ei ysgwydd ac i gynhyrfu, drysu a gwfreiddio y materolwr mwya, am ysbaid.

Dyma awgrym o'r hyn a'n brawychodd. Cawsai cyd-athro mewn hen ysgol, lle y bu Tecwyn yn dysgu am gyfnod byr, y profiad rhyfedd o weld ysbryd yn yn ystod y gwyliau. Llwyddodd i gyfathrebu ag ef, a deallodd i'r drychiolaeth fod yn gaeth i'r ddaear am na ellid croesi tu hwnt i'r llen heb fynd drwy ddefod arbennig na fedrai ei chael yn gywir. Un gyda'r nos, gwnaeth yn hysbys i'r athro ei fod yn hyderus, bellach, sut oedd gwneuthur, ond fe'i rhybuddiodd i beidio â wlylio yr hyn a wnâi. Troesai yr athro ei gefn ond aethai chwilyfrydedd yn drech nag ef a chymrodd sylw manwl o symudiadau'r rhyth mewn drych a ddigwyddai fod yn gyfleus.

Ar ddechrau tymor newydd adroddodd wrth yr athrawon eraill sut y bu. Aeth drwy gyfres hir o arwyddion yn ofalus. 'A wyddoch chi be?' meddai Tecwyn wrthym ni, gwmni cegrwth, 'pan gyflawnodd o yr arwydd olaf, mi syrthiodd yn ei hyd o'n blaenau. Dyma neidio i'w helpu - ond doedd dim fedrem ni ei wneud... roedd o'n hollol farw. Fel mater o ffaith, mi wnes i dalu sylw arbennig i bopeth a wnaeth o ac rwy'n cofio'r ystumiau i gyd yn iawn. Garech chi imi ddangos ichi...?' Fe'i rhwystrwyd rhag hyd yn oed orffen ei gwestiwn gan rai wedi eu harswydo'n llwyr. Dyna beth oedd dawn!

Amlygir darbodaeth rhyfel yn niwyg *Rhyw Ystyr Hud* (Llyfrau Pawb, Dinbych, 1944) ond mae'n drysor i mi am mai dyma un o'r cyfrolau cyntaf i mi ei pherchnogi erioed, a'r union gopi a ddarllenais tua 12 oed (ac yntau ddwyflwydd yn iau), a deall yn ddigamsyniol nad oedd storïau ysbryd wedi eu cyfyngu i doiliod a chanhwyllau cyrff chwedlau lleol, eithr bod iddynt ffurf lenyddol aruchel. Yn flaenorol i hynny yr unig arwydd a gawswn o'r peth oedd yr addasiad Cymraeg syml o 'Garol Nadolig' Dickens yn un o gyfrolau ardderchog *Darllen a Chwarae* (a fu yn ysbardun hefyd, gyda llaw, i'm diddordeb dwfn yn yr Ysgol Brydeinig o arlunwyr).

Gydol fy llencyndod bu tynged E. H. Francis Thomas yn Nhibet ar fy meddwl o bryd i'w gilydd. Jâms Nicholas a'm goleuodd amdano rai



D. Tecwyn Lloyd.

blynyddoedd cyn ymddangosiad ail gyfrol yr awdur, *Hyd Eithaf y Ddaear*, Gwasg Gomer, 1972. Drwy gyd-ddigwyddiad hapus deuthum yn gyfeillgar â D. Tecwyn Lloyd yn fuan ar ôl hynny a chael bod y ddau ohonom (fel E. H. Francis Thomas ei hun) yn edmygwyr mawr o'r Doethor Montague Rhodes James (1862-1936).

Go brin y gellid gorganmol M. R. James, nid yn unig fel ysgolhaig, ond fel awdur storïau ysbryd Saesneg heb ei ail. Bu yn brofost Coleg y Brenin, Caergrawnt, ac Eton ar ôl hynny, ac adlewyrchir y cefndir hwn mewn storïau hynafiaethol eu naws a chredadwy iawn. Daethai ei waith yn hysbys i mi yn llanc ysgol pan brynais (yn

siop Lewis Gomer, Llandysul ar Ebrill 17, 1959, i fod yn fanwl) ddwy gyfrol Penguin o *Ghost Stories of an Antiquary*. Cofiaf ddeubeth yn dda, fod arswyd llwyr wedi gafaél ynof hanner ffordd drwy'r stori gyntaf *Lost Hearts*, a pha mor anaeddfed bynnag yr oeddwn, fy mod yn ymwybodol ei fod yn waith meistyr yn y cyfrwng. Rywbryd yn ei hanes cyfareddwyd awdur *Rhyw Ystyr Hud* yntau gan frenin y ffurf yma o lenyddiaeth a chan awduron eraill yn y maes.

Awydd y cyfreithiwr ifanc, Arthur Kipps, yn addasiad llwyfan gwir athrylithgar Stephen Mallatratt o nofel Susan Hill *The Woman in Black*, i ddweud ei stori yn y ffordd fwyaf effeithiol, a ddaw, yn anorfod, i gof wrth i E. H. Francis Thomas ddatgelu (*Hyd Eithaf y Ddaear*, tud. 98) iddo yntau wneud ymdrech lew i rymuso 'Y Stori' drwy drwytho ei hun yng ngweithiau awduron blaenaf y maes, sef, M. R. James, Sheridan Lefanu [sic], H. G. Wells, Algernon Blackwood ac Arthur Machen.

Nid yw'n syndod iddo gyfeirio at y Gwyddel o dras dramodwr enwog, Joseph Sheridan Le Fanu (1814-1873) oherwydd ystyriai MRJ ei hunan fod hwnnw yn meddu ar ddawn arbennig iawn ac ni fu yn brin o ddweud hynny. Ar un o'r ymweliadau bythgofiadwy â Dilyn yng nghwmni Tecwyn ym mis Mai 1974 buom wrth ddrws hen gartref urddasol Le Fanu ym Merion Square. Drannoeth deuthum o hyd i'w ddaeargell ym mynwent hynod ac enfawr Mount Jerome, a hyd heddiw mae yn fy meddiant y sbrigyn iorwg unig a dyfai allan o fedd awdur *In a Glass Darkly*. Gogleisiwyd Lloyd yn fawr fod dylanwad gwlad Babyddol mor drwm (fel y mynnai ef) ar Anghydfurfiwr nes dyrchafu'r ddeilen i statws crair!

Buasai MRJ wedi dwysáu dilysrwydd syml y ddeilen iorwg yna a dyfasai o hen ddaeargell, drwy ychwanegu rhyw elfen sinistr andwyol a goruwchnaturiol. Fel y dywedodd Michael Cox, un o'i fywgraffwyr: roedd ei storïau yn 'dramodeiddio' gyda medrusrwydd anghyffredin... amlygiad na cheisid o drefn anghydnaws, Tu Hwnt cwbl falcisddrwg, wedi ei gysylltu â'n byd ni gan resymeg astrus a pheryglus: gair diofal, gweithred ddifeddwl, chwilyfrydedd neu yn wir digwydd bod yn y lle anghywir ar yr amser priodol, fe allasai unrhyw un ohonynt gau'r trap'. Cyfeirir isod at ymdriniaeth

feistrolgar MRJ o'r cyfrwng, sef y modd y byddai'n sicrhau mesur digonol o hygredded, a chytunai Tecwyn yn llwyr â'r angenrheidrwydd hwnnw. 'Mae'n rhaid i'r storïau fod yn gredadwy,' meddai mewn recordiad sydd gennyf ohonom yn sgwrsio rywdro.

Ar un achlysur bùm bron â mynd yn ysglyfaeth i 'ddilysrwydd' ffug a greaswn fy hun. Dychwelasai Tecwyn i Gaerfyrddin i gymyrd rhan mewn *This is Your Life* a baratodd cyfeillion Heol Awst ar fy nghyfer. Ni wnaeth ond codi chwibanogl rydlyd at ei wefus, a gwnes ystum anwirfoddol i warafun y peth, fel ar derfyn y stori a adroddodd ar ôl swper gynt. Wedi'r cyfan, onid hon oedd yr union yn a ddarganfu yr Athro Parkins yn yr hen fynwent honno yn East Anglia a erydwyd gan y môr? (Nid yw eich addysg yn gyflawn os ydych yn tybio mai Robert Burns yn unig a roddodd ystyr i'r geiriau: 'Oh! whistle and I'll come to you, my lad.') Fi, wrth gwrs, (gyda help fy nhad) a'i lluniodd a'i danfon ato yn enw mab y darganfyddwr (yntau, mi gofiaf, yn un o gymrodorion Gonville a Caius!)

Bu ymateb Tecwyn i'r 'twyll' hwnnw mor frwdfrydig fel yr esgorodd maes o law ar y stynt y manylaf arni yn y man. Costiodd honno amser cywilyddus o hir, ond dotiodd Tecwyn yn lân arni. Fel y grefft o lunio stori ysbryd ffug, apeliai'r egwyddor (neu'r diffyg egwyddor!) o roi sylwedd i ffantasi a hygredded i greiriau gau yn fawr ato.

Beth yw ffugwaith (*fake*) a phaham y mae ffugiadau yn cael eu llunio? Dyna oedd thema arddangosfa gynhwysfawr yn yr Amgueddfa Brydeinig yn 1990. Ai yr un cymhellion a oedd gan ffugwyr Amdo Turin, Dyn Piltown, a Iolo Morganwg pan ffugiodd farddoniaeth Dafydd ap Gwilym? A yw Vermeer enwog yn peidio â bod yn hardd pan sylweddolir mai Van Meegeren a'i peintiodd? Ceir ffugiadau llenyddol a dogfennol, a ffugiadau gwleidyddol a newidiodd gwrs hanes.

Pwy a lunia gatalog cyflawn o ffugiadau yr anfarwol Ddr. D. Tecwyn Lloyd: y gwareiddiad cyfan a ddyfeisiodd; y manylu cwbl gredadwy ar gyfnod Syr John Morris-Jones a Sherlock Holmes gyda'i gilydd yn y brifysgol; y llythyr hwnnw wedyn â'i ymylon wedi llosgi ('fel tase'r ddesg ei hun yn eiriasboeth w'chi!') o'r lle hwnnw a ddisgrifodd Dante at wleidydd enwog oddi wrth ei

RHYW YSTYR HUD

GAN  
E. H. FRANCIS THOMAS

LLYFRAU PAWB  
DINBYCH